
# Dechrau eich **busnes**



**Busnes Cymdeithasol Cymru**
Yn fentrus gadarnhaol

cwmpas


Pa le bynnag rydych ar daith eich busnes cymdeithasol, gallwn ni eich cefnogi.
O **ddechrau** busnes, i **dyfu**, i **gynllunio olyniaeth**, bydd ein tîm wrth eich ochr.
Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth.
www.cwmpas.coop/BCCdechrau-newydd
UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

# Busnes Cymdeithasol Cymru

Cymorth a chyngor un i un am ddim ... bob cam o'r ffordd.



## Dechrau eich busnes

- ➜ Gweledigaeth
- ➜ Strwythur
- ➜ Corffori
- ➜ Hyfforddiant i gyfarwyddwyr
- ➜ Ymgysylltiad y bwrdd a llywodraethu
- ➜ Strategaeth fuddsoddi
- ➜ Cydymffurfedd a risg
- ➜ Polisïau
- ➜ Agor cyfrif banc

## Tyfu eich busnes

- ➜ Cynllunio strategol
- ➜ Cynllunio busnes
- ➜ Llywodraethu
- ➜ Gwasanaethau cyfrifyddu
- ➜ Marchnata
- ➜ Adnoddau dynol
- ➜ Archwilio cymdeithasol
- ➜ Datblygu cynaliadwy
- ➜ Rheoli ansawdd

## Olyniaeth eich busnes

- ➜ Gwerthuso busnes
- ➜ Ymgysylltiad staff a'r bwrdd
- ➜ Prisio
- ➜ Datblygu arweinyddiaeth
- ➜ Cyngor ariannol
- ➜ Cyngor ar drethi
- ➜ Cyngor parhaus



Yma yn Busnes Cymdeithasol Cymru, rydym yn deall pwysigrwydd busnesau cymdeithasol a’r entrepreneuriaid sy’n eu harwain. Mewn cyfnodau heriol, mae mentrau cymdeithasol, gan gynnwys cwmnïau cydweithredol a busnesau dan berchnogaeth gweithwyr, yn rhan allweddol o adeiladu economi decach sy’n defnyddio elw’n bwrpasol i helpu pobl a’r blaned.

Rydym wedi bod wrth wraidd economi gymdeithasol ffyniannus Cymru ers i ni gael ein sefydlu ac rydym wedi helpu i greu cannoedd o fusnesau newydd.  Rydym yn gwybod beth sydd ei angen i ddechrau menter gymdeithasol lwyddiannus a gallwn weld potensial eu tyfu...

# Y cwbl sydd ei angen arnom yw chi...




# y dyfodol

cynaliadwy

Hoffem gydweithio ag entrepreneuriaid cymdeithasol brwdfrydig ac uchelgeisiol, yn union fel chi, i'ch helpu i adeiladu busnes cymdeithasol cryf a chynaliadwy a fydd yn creu dyfodol gwell i Gymru.

Felly, os oes gennych syniad cyffrous ar gyfer busnes newydd a gweledigaeth glir ar gyfer yr effaith yr hoffech ei chael, cysylltwch â ni. Gall ein tîm gynnig cymorth busnes arbenigol am ddim, ac mae'n barod i'ch helpu i gychwyn arni.



# Cymorth
## dechrau busnes

Er mwyn i'ch busnes newydd ffynnu, mae angen i chi adeiladu sylfeini cadarn. Gall ein tîm gynnig cymorth busnes un-i-un i'ch helpu i roi popeth yn ei le.

### Creu gweledigaeth

Gallwn gydweithio â'ch grŵp i sicrhau bod cydweledigaeth ar gyfer y busnes



### Strwythur

Gallwn eich cynghori ar strwythurau cyfreithiol gwahanol a'ch helpu i ddewis yr un cywir ar gyfer eich busnes newydd

### Ymgorffori

Gallwn eich helpu i ysgrifennu eich dogfen lywodraethu a chorffori eich busnes

### Hyfforddiant i gyfarwyddwyr

Gallwn ddarparu hyfforddiant i'ch cyfarwyddwyr er mwyn iddynt fod yn hyderus yn eu rolau a'u cyfrifoldebau

### Llywodraethu ac ymgysylltu â'r bwrdd

Gallwn eich helpu i sefydlu system lywodraethu ac ymgysylltu â darpar aelodau'r bwrdd



## Strategaeth buddsoddi

Gallwn eich helpu i ddatblygu strategaeth buddsoddi a'ch cynghori ar grantiau, benthyciadau, cyllido torfol a chyfranddaliadau cymunedol




## Cydymffurfiaeth a risg

Gallwn eich helpu i amlygu unrhyw faterion yn ymwneud â chydymffurfiaeth neu unrhyw risgiau sydd gan y busnes, a sut y gellid eu rheoli



## Polisïau

Gallwn eich helpu i greu polisïau i sicrhau y caiff eich sefydliad ei redeg yn dda



## Agor cyfrif banc

Gallwn eich helpu i agor cyfrif banc ar gyfer eich menter newydd

Rydym yn falch o fod yn rhan o deulu Busnes Cymru, a gall ei arbenigwyr roi cymorth cynllunio busnes a chyllid ychwanegol i chi.

# Cymorth
## Mentora

Gall dechrau busnes newydd fod yn heriol, ac ni waeth pa mor dda rydych yn paratoi, mae rhai gwersi y gallwch ond eu dysgu trwy brofiad. Er mwyn eich helpu i ymdopi â'r pwysau sy'n gysylltiedig â dechrau busnes, gallwn eich paru ag arweinwyr busnesau cymdeithasol sefydledig eraill sy'n gallu darparu mentora cymheiriaid. Gall hyn fod wyneb-yn-wyneb neu'n rhithwir; pa beth bynnag sy'n gweddu orau i chi a'ch busnes.

Ni allwn aros i chi gychwyn ar daith eich busnes cymdeithasol. I gael mwy o wybodaeth am y cymorth y gallwn ei gynnig, cysylltwch â ni i gael sgwrs â'r tîm.


www.cwmpas.coop/BCCdechrau-newydd

businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy

03000 6 03000
a gofynnwch am
Busnes Cymdeithasol Cymru

sbwnewstart@cwmpas.coop



Darperir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Cwmpas, asiantaeth datblygu cenedlaethol Cymru ar gyfer cwmnïau cydweithredol a busnesau cymdeithasol.